# JONES, ISHMAEL (1794 - 1876)



**Enw:** Ishmael Jones
**Dyddiad geni:** 1794
**Dyddiad marw:** 1876
**Rhiant:** Elisabeth Jones
**Rhiant:** Thomas Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Tom Ellis Jones

Ganwyd yn 1794 mewn t to gwellt a elwid Plas-yn-pant, Ponciau, yn fab i Thomas ac Elisabeth Jones. Glöwr ydoedd yn nyddiau ei lencyndod, ond ar waethaf y creithiau glas a oedd ar ei wyneb, ni fynnai gydnabod ei alwedigaeth wreiddiol. Daeth o dan ddylanwad pregethu ' Williams o'r Wern,' ac yn fuan wedi ymaelodi gyda'r Annibynwyr dechreuodd bregethu. Bu yn athrofa Hackney cyn ei ordeinio i'r weinidogaeth. Gweinidogaeth symudol a fu ei eiddo gan na feddai'r gallu lleiaf i drin dynion. Dychwelodd i'w fro enedigol yn 1847 ac yno y treuliodd weddill ei ddyddiau. Bu farw 9 Medi 1876, a chladdwyd ef yn y Wern. Yr oedd yn bregethwr anghyffredin, a dywedid y medrai ar adegau fod mor rymus â Williams o'r Wern. Aeth yn enwog am ei ffraethineb a'i ddywediadau gwreiddiol.

## Awdur

**Y Parchedig Brifathro Tom Ellis Jones**, (1900 - 1975)

## Ffynonellau

David Evans, *Cofiant y Gwr Hynod sef y diweddar Barchedig Ishmael Jones* (Bala 1877)

*Cymru (O.M.E.)*, ii, 3

*Y Tyst*, 15 a 29 Medi a 13 a 20 Hydref 1876

*Y Traethodydd*, Hydref 1926

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733294

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu